❖ Carol y Nadolig

Llewyrched y dwyfol oleuni
I ymlid cysgodion yr hwyr
Fel cynt ar hyd maes y corlannau,
A chilied ein hofnau yn llwyr
Wrth wrando'r newyddion gan luoedd y nef
Am Fab y Goruchaf ym Methlehem dref.

Rhyfeddod a lanwo ein calon,
Boed moliant fel ymchwydd y môr
I'r neges o'r nefol drigfannau
Am ras gwaredigol yr Iôr;
Ein Dyddiwr mewn preseb, y Duwdod yn ddyn
I adfer dynolryw i'w ddelw ei Hun.

Cynydder y mawl i'r Gwaredwr
A llafar fo'n genau i'w glod,
Gadawodd ei Orsedd dragwyddol
A'i eni mewn annedd ddi-nod;
Trwy rym ei awdurdod a rhinwedd ei waed
Daw dydd rhoi coronau y byd wrth ei draed.

T. Elfyn Jones

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com